Annwyl randdeiliaid

Yn 2023, cynhaliodd yr awdurdod lleol broses ymgynghori statudol yn ymwneud â chynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Coety drwy ehangu'r ysgol o 2 ddosbarth mynediad i 2.5 dosbarth mynediad o Ionawr 2025.

Ym mis Medi 2023, penderfynodd y Cabinet i weithredu'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

O ganlyniad i ehangu'r ysgol byddai nifer y lleoedd i ddisgyblion 4 i 11 oed yn cynyddu o 420 i 525. Yn ychwanegol, ac oherwydd yr ehangu, byddai 84 lle Meithrin llawn amser (hynny yw, 75 lle llawn amser a 9 lle llawn amser i ddisgyblion rhan amser). Ar ôl gweithredu'r cynnig, byddai'r Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig yn 75 ar gyfer Ysgol Gynradd Coety.

Er mwyn cynyddu capasiti'r ysgol, mae'r awdurdod lleol wedi adnabod yr angen i adeiladu estyniad o bedair ystafell ddosbarth. Mae materion adnoddau cychwynnol o ran dylunio'r estyniad wedi cael effaith negyddol ar y rhaglen a gyflwynwyd yn ystod y cam ymgynghori ac a oedd yn sail i benderfyniadau'r Cabinet. Mae'r materion adnoddau wedi cael eu datrys ers hynny. Fodd bynnag, mae'r mater hwn wedi cael effaith ar y rhaglen, ac nid yw'r dyddiad gweithredu arfaethedig, fel a gymeradwywyd gan y Cabinet, yn gyraeddadwy bellach.

Wedi ymgynghori â Chorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Coety, ar 11 Mawrth 2025, penderfynodd y Cabinet i addasu dyddiad gweithredu'r ehangu yn ffurfiol, i ddod i rym, ar 1 Medi 2026.

Mae penderfyniad y Cabinet ar 11 Mawrth 2025 yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y nodir yn Rhan 4 Rheolau Gweithdrefnau yng Nghyfansoddiad y Cyngor, sy'n caniatáu i benderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet, ond sydd eto i'w gweithredu, i gael eu hadolygu. Pe bai hysbysiad galw i mewn dilys yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, byddai'r holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.

Yn gywir

**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**

**Corporate Director – Education, Early Years and Young People**

Bridgend County Borough Council

**Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr